CURTIS CUP
Conwy 2021

Seren a Sandy

Seren Jones ... seren chwaraeon 10 oed!

Roedd Seren Jones, deg oed, wrth ei bodd yn treulio amser gyda Taid.

Roedd y ddau ohonyn nhw'n rhannu cariad at chwaraeon. Roedd Taid bob amser yn y gôl wrth i Seren ergydio'r bêl heibio iddo. Roedd Seren yn naturiol ym mhob camp. Roedd hi'n rhagori ar rygbi, pêl-rwyd a chriced. Roedd hi eisoes yn breuddwydio am yrfa mewn chwaraeon ond ni allai benderfynu pa un. Doedd Taid ddim yn un i wthio - roedd am i Seren fwynhau pa bynnag gamp a wna a gwneud ffrindiau da. Pe bai hi'n mynd ymlaen i chwarae rygbi i Gymru byddai hynny'n fonws!



Roedd Taid wedi chwarae llawer o chwaraeon hefyd pan oedd yn iau, ond rŵan golff oedd ei gêm. Roedd yn angerddol amdano ac yn chwarae yng Nghonwy gyda'i ffrindiau pan nad oedd yn y gôl i Seren neu'n mynd â hi i wahanol weithgareddau chwaraeon!

Roedd yn gobeithio'n gyfrinachol y gallai Seren droi ei doniau at golff ond dim ond pe bai hi'n gwneud ei meddwl ei hun i fyny. A bod yn onest, nid oedd Seren wedi rhoi llawer o feddwl iddo er ei bod yn ymwybodol bod Taid wrth ei fodd â'r gêm. Yna, newidiodd diwrnod allan gydag ef bopeth.

Roeddent yn cerdded ar hyd y prom wrth y traeth, pan basion nhw gwrs ''golff gwirion''. Edrychodd Seren ar bobl yn defnyddio pytwyr i daro peli golff llachar trwy felinau gwynt a thros rampiau. ''Taid,'' meddai, ''allwn ni roi cynnig arni os gwelwch yn dda?'' Roedd Taid yn barod am yr her. Fe dalont a chawsant ddau hen bytiwr a phêl las a phêl goch. Dewisodd Seren y bêl goch a gwnaethant eu ffordd i'r twll cyntaf. Dangosodd Taid i Seren sut i afael yn y clwb ac i ffwrdd â nhw. Rhoddodd Seren y bêl i lawr gan anelu ergyd y pytiwr arni ac yn syth i'r twll! Cymerodd Taid ei dro, methodd o fymryn, a sgorio dau. Ysgrifennodd y sgoriau i lawr ar y cerdyn a roddwyd iddynt. Roedd cynnig cyntaf Seren wedi gwneud argraff arno ond credai mae'n debyg mai lwc tro cyntaf oedd hyn.

Roedd y twll nesaf yn cynnwys pytio'r bêl heibio melin wynt, gan ofalu peidio â tharo'r llafnau. Camodd Seren i fyny a'i phytio o fewn modfedd i'r twll. Tarodd y bêl i mewn am ddau bwynt, roedd gan Taid gêm o'i flaen. Ar ôl 18 twll roedd Seren yn fuddugoliaethus - fe wnaethant ysgwyd llaw a phrynodd Taid hufen iâ i Seren. Ei gwobr golff gyntaf erioed!

Gofynnodd i Taid a allai gael gêm 'iawn' gydag ef yng Nghonwy.



Cytunodd – ar yr amod ei bod yn taro rhai ergydion ar y maes ymarfer yn gyntaf a hefyd gadael i Andy y chwaraewr proffesiynol yng Nghonwy roi rhai gwersi iddi. Dywedodd ''Ie, os gwelwch yn dda Taid''' a dechreuodd yr antur. Gyda chlybiau plant yr oedd gan George yn y siop, chwaraeodd Seren a'i thaid eu gêm gyntaf gyda'i gilydd. Tarodd Seren ambell ergyd dda a rhai ergydion gwael, fel y gwnaeth Taid. Ar y diwedd, roedd Seren ar dân i chwarae eto. Roedd hi wedi dal y clwy golff!

Roedd Taid wrth ei fodd pan ddywedodd y Chwaraewr Proffesiynol wrtho"Mae Seren yn naturiol!"

1. **Faint dalodd Taid a Seren yn y Golff Gwirion?**
2. **Beth yw'r fargen orau i ddau oedolyn a thri phlentyn?**
3. **Mae gan Seren barti iddi hi ei hun a phymtheg o ffrindiau. Mae Taid, Nain, dad a mam yn dod hefyd. Beth yw'r gost?** (Cofiwch gael y fargen orau).
4. **Ar ddarn o bapur ar wahân, a allwch chi ddylunio twll gwych ar gyfer y "Golff Gwirion"?**

Mae Seren yn dysgu mwy am golff



Roedd Seren yn dysgu cymaint gan y golffwyr yng Nghlwb Golff Conwy.

Roedd golff yn cŵl! Roedd hi'n cael gwisgo'r dillad chwaraeon ffasiynol diweddaraf, ond yn bwysicach fyth, roedd Seren y'n dysgu pob math o bethau defnyddiol eraill. Sylweddolodd pa mor bwysig oedd bod yn gwrtais, yn foesgar ac yn onest a gallu cymryd hwyl. Mae golff fel bywyd, mae iddo uchafbwyntiau ac isafbwyntiau ac roedd yn dda dysgu sut i ddelio'n gywir â'r holl ergydion gwael hynny!

Chwilair

Rhowch gylch o amgylch yr holl eiriau cudd yn y grid sydd wedi'u rhestru mewn pinc.

CWPAN CURTIS TIR GLAS BYNCER TWLL CERDYN SGORIAU SWING
SAFON CONWY ERYR PYTIWR RHWYSTR BYRDI CWRS GLAN MÔR
GARW BANER HAEARN DREIFAR BOGI PYT LAWNT PÊL GOLFF

W	R	P	E	L	G	O	L	F	F	A	M	C
C	B	N	D	S	G	L	O	F	U	T	R	W
A	B	Y	R	D	I	M	S	A	F	O	N	P
P	Y	T	O	P	U	C	W	D	C	Y	M	A
S	N	B	N	Y	I	W	I	W	E	R	E	N
P	C	D	F	G	E	R	N	C	N	T	B	C
C	E	R	D	Y	N	S	G	O	R	I	A	U
M	R	O	R	B	S	G	Y	N	H	R	N	R
W	T	U	E	M	T	L	C	W	W	G	E	T
P	Y	T	I	W	R	A	S	Y	Y	L	R	I
R	T	E	F	G	F	N	O	L	S	A	P	S
T	F	H	A	Y	L	M	R	E	T	S	N	E
W	G	A	R	W	B	O	G	I	R	L	B	O
L	E	B	E	R	Y	R	R	W	N	D	I	S
L	A	W	N	T	M	U	H	A	E	A	R	N

CwisGolff

Profwch eich gwybodaeth golff trwy ateb y cwestiynau isod

1. Beth yw'r ffordd las?

- ☐ **a** Yr unig le y gallwch chi daro'r bêl?
- ☐ **b** Yr ardal â glaswellt byrrach rhwng y ti a'r lawnt?
- ☐ **c** Llwybr rhwng tyllau?

2. Beth yw dreifar?

- ☐ **a** Person sy'n gyrru ar y cwrs yn gwerthu byrbrydau?
- ☐ **b** Clwb y gallwch ei ddefnyddio i'ch helpu chi i ddod allan o fyncer?
- ☐ **c** Clwb a ddefnyddir yn aml oddi ar y ti ar dyllau hirach?

3. Beth yw eryr?

- ☐ **a** Sgôr o ddau o dan y safon ar unrhyw dwll? (ee 3 ar safon 5)
- ☐ **b** Symbol pob lwc ar gwrs golff?
- ☐ **c** Clwb arbennig ar gyfer taro'r bêl golff mor uchel â bosibl?

4. Beth yw byncer?

- ☐ **a** Lle i gysgodi mewn tywydd gwael?
- ☐ **b** Pwll wedi'i lenwi â thywod i wneud twll yn anoddach?
- ☐ **c** Sied i storio'ch clybiau?

5. Beth sy'n cael ei ddefnyddio i nodi'r twll ar lawnt?

- ☐ **a** Baner ar ben polyn?
- ☐ **b** Ffon blân?
- ☐ **c** Lamp?

6. Beth mae'r Prif Dirmon yn ei wneud?

- ☐ **a** Tyfu llysiau?
- ☐ **b** Dal y faner tra bod pobl yn pytio?
- ☐ **c** Gweithio gyda'u tîm i gadw'r cwrs mewn cyflwr da?

Allwch chi ymchwilio i unrhyw dermau golff eraill?

7. Pa bêl ddylai Seren bytio i gipio'r ergyd

a ☐ b ☐ c ☐



Tyrd 'laen Seren

Roedd gallu Seren ar gyfer golff yn rhyfeddol. Roedd yn amlwg i bawb ei bod yn mynd i wireddu ei henw trwy fod yn wir SEREN.

Daliodd ati i fynd am wersi ac ymarfer yn galed iawn. Helpodd Taid gyda'i hagwedd ar y cwrs golff. Fe'i dysgodd i dderbyn ergydion gwael a chadw'n bositif hyd yn oed pan nad oedd pethau'n mynd yn dda. ''Os wyt ti am wylltio gyda dy hun a dechrau pwdu yna mae'n debyg y bydd dy gêm yn gwaethygu.'' meddai.

Atgoffodd Seren fod golff yn anarferol yn yr ystyr mai anaml y mae gan chwaraewyr ddyfarnwyr fel mewn pêl-droed a rygbi. Rhaid i chwaraewyr fod yn hollol onest ynglŷn â chadw eu sgoriau a chymhwyso'r rheolau niferus yn llym i'w hunain, yn ogystal ag eraill. Fe'i hanogodd hefyd i edrych mor smart â phosib ar y cwrs - ''Edrycha'n dda a chwarae'n dda!'' oedd ei gyngor.

Cadwodd Seren ei holl ddillad golff yn dwt a thaclus a'u cymysgu mewn gwahanol gyfuniadau. Roedd hi fel arfer yn gwisgo siorts smart, top taclus a het. Roedd ganddi dri thop yr oedd hi'n eu hoffi yn arbennig, tri phâr o siorts a thair het. Roedd y topiau'n goch, melyn a glas - felly hefyd y siorts a'r hetiau. Roedd Seren yn hoffi mathemateg yn yr ysgol a gweithiodd allan y gallai gymysgu'r rhain yn llawer o gyfuniadau.

Edrych y rhan

Edrychwch a allwch chi ddefnyddio'r eitemau o ddillad golff gyferbyn - hetiau, topiau a siorts, i weithio allan yr holl gyfuniadau gwisg gwahanol. Mae yna lawer!

Lluniwch eich bwrdd eich hun gan ddefnyddio'r llythrennau cod. Nid yw rhai cyfuniadau yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, trychinebau ffasiwn! Dewiswch eich 'Saith Gorau' eich hun ar gyfer wythnos o golff i Seren.

Ceisiwch ddylunio'ch ystod eich hun o ddillad golff.

Roedd Taid wedi bod yn hael iawn yn prynu' set gyntaf o glybiau golff i Seren.

Roeddent yn ail-law ond helpodd Andy y golffiwr proffesiynol i ddewis rhai a oedd yn gweddu orau i Seren.Fodd bynnag, wrth i Seren wella, roedd hi eisiau clybiau newydd yr oedd hi'n gobeithio y byddai'n hyd yn oed gwell ar gyfer ei gêm. Roedd costau eraill hefyd. Unwaith eto helpodd Taid. Roedd yn gwybod bod gan ei wyres dalent arbennig ac felly penderfynodd ddarparu cyllideb ar gyfer gêm Seren. Fe ildiodd rai o'i hoff bethau ei hun er mwyn gwneud hyn.

Dyma gyllideb Taid* ...

Eitem	Cost	Nodiadau
Clybiau Golff Newydd	£400	Disgownt o 10% oddi ar £400
Bag Golff Newydd	£100	£80 os caiff ei brynu gyda chlybiau newydd
Esgidiau Golff	£60	Hanner pris ar gael y mis hwn, didynnu o £60
Peli Ymarfer	£10 am fag o 25	
Peli Cystadleuaeth	£9 am 3	Bocs o 12 yn costio £30

1. Faint fyddai set newydd o glybiau yn ei gostio ar ôl y gostyngiad? £
2. Faint fyddai set newydd o glybiau a bag golff newydd pe bai'n cael ei brynu gyda'i gilydd? £
3. Faint fyddai pâr o esgidiau golff yn ei gostio ar ôl defnyddio'r fargen hanner pris? £
4. Faint fyddai set newydd o glybiau, bag golff newydd a phâr o esgidiau golff yn ei gostio pe byddent yn cael eu prynu gyda'i gilydd? £
5. Faint o Beli Ymarfer y gellir eu prynu am £40?
6. Faint fyddai 15 Pêl Cystadleuaeth yn ei gostio gan ystyried pris bocs o 12? £

Mae Taid yn cynilo ac yn prynu i Seren:

Set newydd o glybiau • Bag golff newydd • Pâr o esgidiau golff
75 pêl ymarfer • 24 pêl gystadleuaeth



7. Faint fyddai ei angen arno yn ei gyllideb? £

Cofiwch pan fyddwch chi'n dechrau golffio, fel Seren, yn aml gallwch fenthyg clybiau neu brynu clybiau gwerthfawr yn ail-law. Mae llawer o glybiau golff yn cynnig sesiynau blasu am ddim i ddechreuwyr o bob oed.

Cadw Sgôr

Parhaodd Seren i wella'n gyflym. Chwaraeodd gyda Taid a golffwyr da iawn ac roedd hi'n ymarfer llawer.

Cadwodd ddyddiadur o'i holl sgoriau yn yr holl dwrnameintiau y chwaraeodd hi ynddynt. Gallwch weld rhai o'i nodiadau isod. Gelwir faint o ergydion y dylai chwaraewr da fel arfer ei gymryd i gwblhau twll yn **"Safon"**. Os yw chwaraewr yn sgorio un ergyd o dan y Safon ar dwll fe'i gelwir yn **"Byrdi"**. Os yw chwaraewr yn sgorio dwy ergyd o dan y Safon ar dwll fe'i gelwir yn **"Eryr"**. Os yw chwaraewr yn sgorio un ergyd dros y Safon fe'i gelwir yn **"Bogi"**. Mae dau dros y Safon yn **"Bogi Dwbl"**. Cofnododd Seren unrhyw dyllau gwaeth na'r sgôr hwn fel **"Eraill"**. Roedd Taid wedi atgoffa Seren i fod yn deg ac yn gywir gyda phob ergyd roedd hi'n ei chwarae a'i gofnodi.

Mae golff yn gêm lle mae'r chwaraewr yn gyfrifol am gofnod onest o'u gêm.

Dyma rai o nodiadau Seren ar gyfer deg rownd.
Mae pob rownd yn 18 twll felly chwaraeodd 180 o dyllau.

Rownd	Eryrod	Byrdis	Safon	Bogis	Bogis Dwbl	Eraill
1	1	4	8	2	2	1
2	0	4	9	2	1	2
3	1	3	9	4	1	0
4	0	4	10	2	2	0
5	0	2	7	5	3	1
6	1	5	5	6	1	0
7	1	5	6	5	1	0
8	2	2	8	4	0	2
9	0	4	9	5	0	0
10	1	5	12	0	0	0
Cyfanswm						

1 Allwch chi lenwi'r cyfansymiau yn y blychau uchod?

2 Dros y deg rownd, faint yn fwy o'r safon na'r byrdis a sgoriodd Seren?

Bwrdd Arweinwyr

Roedd Seren nawr yn cystadlu yn erbyn rhai o'r goreuon talentog ifanc o'i chwmpas.

ARWEINWYR GWAHODDEDIG MERCHED DAN 21 OED

TWLL	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15	16	17	18	CYFANSWM
SAFON	4	3	4	4	5	3	4	5	5	5	4	5	3	5	3	4	4	4	
JEAN BRYSON	4	3	4	4	4	4	5	3	5	5	3	6	3	5	3	4	4	4	
ANNE MACNAMARA	4	3	4	5	5	5	4	5	5	5	4	5	1	5	4	5	5	5	
SEREN JONES	4	2	4	4	4	4	4	4	5	6	4	4	3	5	3	4	4	3	
SANDY O'NEIL	5	3	4	5	3	3	4	4	5	5	5	5	4	4	4	3	4	4	
MOIRA HARTLEY	6	4	4	5	3	3	4	4	5	6	5	3	5	4	4	4	4	5	
HANNE MCGINN	4	3	4	5	4	4	4	5	5	5	4	5	3	5	4	3	4	4	
TRISH CHANCE	4	3	4	4	5	4	4	5	5	6	5	6	4	5	4	5	4	3	
CHRIS BROWN	4	3	5	5	6	4	4	5	3	4	5	4	3	4	4	5	6	3	

Uchod mae bwrdd arweinwyr tebyg i'r rhai maen nhw'n eu defnyddio mewn golff pencampwriaeth

1 Cyfrifwch gyfanswm y sgôr ar gyfer pob chwaraewr, gan ysgrifennu'ch atebion yn y golofn werdd ar ochr dde'r bwrdd

2 Faint o 'BYRDIS' a sgoriwyd? ____

3 Faint o 'ERYROD' a sgoriwyd ____

4 Rhestrwch y chwaraewyr yn y drefn y gwnaethon nhw orffen

1af _____ 5ed _____

2il _____ 6ed _____

3ydd _____ 7fed _____

4ydd _____ 8fed _____

Gwyliwch y Byrdi !

Mae Eryr yn golffiwr medrus iawn ac mae'n hoffi gwisgo dillad golff gwahanol a lliwgar.

Lliwiwch y llun hwn a rhowch liwiau llachar i'w wisg.

Cyfeillion Trawsiwerydd



Gan fod Seren wedi dechrau chwarae mewn mwy o dwrnameintiau mawr daeth ar draws merch ifanc o Unol Daleithiau America a oedd hefyd yn chwarae yn yr un cystadlaethau â hi.

Ei henw oedd Sandy ac roedd hi'n chwaraewr da iawn. Daeth Seren a Sandy i sylw ei gilydd gyntaf wrth iddyn nhw daro peli ar y maes ymarfer. Roedd ychydig o elyniaeth i ddechrau, y ddwy am weld pwy allai daro'r bêl bellaf. Yna fe ddechreuont sgwrsio a chanfod bod ganddynt lawer yn gyffredin.

Dywedodd Seren wrth Sandy am ei Thaid, ac mae ef oedd ei chefnogwr mwyaf. Chwarddodd Sandy a dweud wrth Seren mai ei Thaid hithau oedd wedi ei hysbrydoli i chwarae golff a bod yntau hefyd ei chefnogwr mwyaf hi. Fe wnaethant siarad llawer am golff a sut roedd y ddwy ohonynt yn credu ei bod hi'n gêm cŵl iawn ac yn caniatáu iddyn nhw fynegi eu hunain mewn amgylchedd cystadleuol.

Roedd y ddwy eisoes wedi cael cyfle i deithio a chwarae rhai cyrsiau golff gwych. Buan y dysgon nhw eu bod ar fin mynd i'r un coleg gyda'i gilydd yn America.



1 Sawl talaith sydd â 5 llythyren? ☐

2 Sawl talaith sydd â 9 llythyren? ☐

3 Cyfrifwch y canlynol gan ddefnyddio nifer y llythrennau ym mhob enw - yr holl daleithiau sy'n dechrau gydag A, adio'r holl daleithiau sy'n dechrau gyda M, tynnu'r holl daleithiau sy'n dechrau gyda I.

☐ + ☐ - ☐ = ☐

Roedd y syniad o Seren yn mynd i goleg yn America i fynd â'i gêm i lefel newydd yn rhywbeth roedd hi wedi'i drafod gyda'i theulu a'r rhwydwaith cymorth a oedd ganddi yng Nghymru.

Roedd Seren eisiau i golff fod yr hyn a fu erioed gyda Taid, llawer o hwyl. Fodd bynnag, gwelodd hefyd y posibilrwydd o yrfa gydol oes yn y gêm, gan wneud rhywbeth yr oedd hi wir yn ei garu.

Treuliodd Seren a Taid lawer o amser yn ymchwilio i ysgoloriaethau mewn gwahanol Golegau yn America.

Mae ysgoloriaeth yn caniatáu i chwaraewyr talentog gael help at y gost o fynychu coleg. Roedd Taid a Seren yn gwybod na fyddai bod â thalent am golff yn ddigon. Byddai'n rhaid i Seren ddangos ei bod hi'n gallu gweithio'n galed a gwella ei dysgu - yn union fel yn yr ysgol. Amlygodd Taid hefyd y byddai angen iddi greu argraff ar bobl gyda'i hymddygiad. Dywedodd y gallai Hyfforddwyr y Coleg helpu ei gêm yn fawr ond mai dim ond Seren allai reoli ei hymddygiad ar y cwrs golff.

Mae yna lawer o golegau yn America sy'n cynnig cyfleoedd i ferched sy'n golffwyr talentog. Dyma ychydig y daeth Taid a Seren o hyd iddynt. Maent mewn gwahanol Daleithiau. Er mwyn ei gwneud yn anodd, mae llythrennau enwau'r Taleithiau wedi'u cymysgu, gan wneud anagramau. Defnyddiwch y map ar y chwith i'ch helpu chi.

Fedrwch chi roi trefn ar y llythrennau.

setax onrht linaorac lifainroac isnolili zonaari ridaflo ninmestoa gonroe

1 _____

2 _____

3 _____

4 _____

5 _____

6 _____

Enwch y taleithiau ar y chwith.



Am y Tyllau Seren!

Mae Seren a Sandy yn credu mewn ymarfer, ymarfer, ymarfer!

Un prynhawn, aethant i'r maes ymarfer i fireinio eu sgiliau cywirdeb.

Seren
Sandy

Edrychwch ar eu canlyniadau ar y targedau isod a llenwch yr atebion.

Pwy ddaeth i'r brig?

Targed 1 o 100m

Cyfanswm -

Sandy

Seren

Enillydd _____



Targed 2 o 75m

Cyfanswm -

Sandy

Seren

Enillydd _____

Wyddoch chi....

Ffurfiwyd clwb golff Conwy ym 1890, ac mae ei bedwar twll cyntaf yn wynebu pedair cornel y cwmpawd.

Y dreif hiraf a gofnodwyd gan ddynes yw 413 llath (378 metr).



Targed 3 o 50m

Cyfanswm -

Sandy

Seren

Enillydd

Targed 4 o 10m

Cyfanswm -

Sandy

Seren

Enillydd

Cwpan Curtis yn dod i Gonwy

Chwaraeodd Seren a Sandy lawer o golff gyda'i gilydd ac ymarfer yn galed.

Daethant yn ffrindiau agosach fyth wrth iddynt rannu eu breuddwydion am ddyfodol mewn golff. Roedd y ddwy ohonynt yn gobeithio, ymhen amser, y bydden nhw'n dod yn golffwyr proffesiynol ac yn ddigon da i chwarae mewn twrnameintiau ledled y byd. Fodd bynnag, cyn hynny roeddent yn rhannu breuddwyd arall - i gael eu dewis i gynrychioli eu gwledydd yng Nghwpan Curtis.

Cwpan Curtis yw'r tlws tîm gorau ar gyfer golffwyr amatur benywaidd. Mae'n cael ei chwarae am bob dwy flynedd rhwng timau sy'n cynrychioli Prydain Fawr ac Iwerddon ac Unol Daleithiau America. Cyrhaeddodd y ddwy ferch ifanc y tîm! Fe'i cynhaliwyd yng Nghlwb Golff Conwy, yng Ngogledd Cymru. Roedd hyn yn dda i'r ardal wrth i bobl ymweld i fwynhau'r golff a threulio amser yn archwilio'r dref hanesyddol a Pharc Cenedlaethol Eryri.

Allwch chi ddylunio poster yn hysbysebu'r gystadleuaeth a rhai o'r lleoedd gwych i ymweld â nhw?



Croesair

Ar draws

2. Lle mae 2 i lawr yn cael ei gynnal (5)
4. Mae hwn yn dal y faner (5)
6. Arwres y llyfr hwn! (5)

I Lawr

1. Mae 6 ar draws wedi cael ei lenwi â hyn (6)
2. Enw'r twrnamaint (5) a (6)
3. Gair am nifer yr ergydion sydd eu hangen i gwblhau twll (5)
5. Mae hwn wedi'i lenwi ag 1 i lawr (6)

O Ddot i Ddot

Uchod mae tirnod enwog iawn yng Nghonwy. Gorffennwch y dot-i-dot ac enwch y tirnod. AWGRYM - gwnewch eich llinellau rhwng pob dot mor syth ag y gallwch

Neilltuwyd rhan o'r ornest ar gyfer ''Gemau Senglau''. Dyma pryd mae dau chwaraewr yn chwarae yn erbyn ei gilydd dros 18 twll. Pan dynnwyd yr enwau ar gyfer y gemau, roedd Seren i chwarae Sandy. Denodd eu gêm dorf fawr, gan gynnwys dau Daid balch iawn! Roedd y gêm yn agos gyda'r ddwy gampwraig yn taro rhai ergydion gwych ac yn y diwedd cafodd y gêm ei ''haneru'', hynny yw roedd yn ''gêm gyfartal''. Ar ôl 18 twll cofleidiodd y ddwy ddynes ifanc a gwenu ar ei gilydd. Roedd y ddwy wedi ymdrechu'n galed iawn i ennill ond bellach yn parchu ei gilydd am wneud eu gorau. Ysgydwodd y ddau Taid ddwylo a chytuno bod y golff wedi bod yn fendigedig a bod y ddwy wyres wedi dangos sbortsmonaeth ac ysbryd gwych - yr unig ffordd i chwarae golff!

A allwch chi ysgrifennu adroddiad o'r gêm, gan gynnwys rhywfaint o gefndir Seren a Sandy? Ychwanegwch rai lluniau eich hun.

Atebion

T.1. 1. £4.50 2. £8.50 3. £33.00

T.2.

C	B	N	D	S	G	L	O	F	U	T	R	W	P	
A	B	Y	R	D	I	M	S	A	F	O	N	P		
P	Y	T	O	P	U	C	W	D	C	Y	M	A		
S	N	B	N	Y	I	W	I	W	E	R	E	N		
P	C	D	F	G	E	R	N	C	N	T	B	C		
C	E	R	D	Y	N	S	G	O	R	I	A	U		
M	R	O	R	B	S	G	Y	N	H	R	N	R		
W	T	U	E	M	T	L	C	W	W	G	E	T		
P	Y	T	I	W	R	A	S	Y	Y	L	R	I		
R	T	E	F	G	F	N	O	L	S	A	P	S		
T	F	H	A	Y	L	M	R	E	T	S	N	E		
W	G	A	R	W	B	O	G	I	R	L	B	O		
L	E	B	E	R	Y	R	W	N	D	I	S			
L	A	W	N	T	M	U	H	A	E	A	R	N		

T.3. 1. b 2. c 3. a 4. b 5. a 6. c 7. b

T.5. 1. £360 2. £440 3. £30 4. £470
5. 100 6. £39 7. £560

T.6. 1. 7, 38, 83, 35, 11, 6
2. 45

T.7. 1. 73, 79, 71, 74, 78, 75,
80, 77
2. 19
3. 6
4. Iaf Seren
2il Jean
3ydd Sandy
4ydd Hanne
5ed Chris
6ed Moira
7fed Anne
8fed Trish

T.12

T.8. 1. 5 llythyren - Idaho, Maine, Texas
2. 9 llythyren - Minnesota, Louisiana, New Jersey, Tennessee, Wisconsin, New Mexico
3. Alaska 6, Arizona 7, Arcansas 8, Alabama 7 = 28
+ Maine 5, Montana 7, Minnesota 9, Missouri 8, Michigan 8, Mississippi 11, Massachusetts 13, Maryland 8 = 69
- Idaho 5, Iowa 4, Illinois 8, Indiana 7 = 24
CYFANSWM = 73

T.9. Rhoi Trefn -

Texas	1. Texas
North Carolina	2. Idaho
California	3. California
Illinois	4. Florida
Arizona	5. New York
Florida	6. Oklahoma
Minnesota	
Oregon	

Taleithiau -

T.10 Targed 1 Sandy 20 Seren 24 Enillydd Seren
Targed 2 Sandy 22 Seren 29 Enillydd Seren

T.11 Targed 3 Sandy 30 Seren 26 Enillydd Sandy
Targed 4 Sandy 37 Seren 32 Enillydd Sandy

Diolch i Matt Parsley, Rheolwr Cyffredinol yng Nghlwb Golff Conwy, Neil Pringle, Rheolwr Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr, David Evans o Sarn Associates, Dilwyn Griffiths o Golff Cymruac Andrea Price o'r Ras Group – "diolch yn fawr i bawb!"

CONWY 1890
Beacons Way,
Conwy LL32 8ER
t: 01492 593400
www.conwygolfclub.com

Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr, CGGC,
7 Rhiw Road, Bae Colwyn
t: 01492 534091
e: neilpringle@cvsc.org.uk
www.cvsc.org.uk

BOCS SELF STORAGE
Uned 1A, Parc Menter Quinton Hazel,
Ffordd Glan y Wern, Bae Colwyn
t: 01492 544244 **s:** 07866 761614
e: keepit@bocs-storage.co.uk
www.bocs-storage.co.uk

SARN Sarn Associates
Parc Busnes Granary Court, Ffordd yr Orsaf,
Talacre, Sir y Fflint
t: 01745 570303 **s:** 07768 668920
e: maths@sarnassociates.co.uk
www.sarnassociates.co.uk © SARN 2020

RASO design & print
Elder House Park West
Sealand Road, Caer CH1 4RL
t: 01244 346666
e: sales@rasgroup.co.uk
www.rasgroup.co.uk